

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

## Prydlondeb yn y boreau

Gofynnwn yn garedig i chi geisio fod yn brydlon yn y boreau os gwelwch yn dda.



Mae'r Clwb Brecwast yn agor am 8:15yb; yna gweddill yr ysgol ar agor i bawb gyrraedd rhwng 8:30 – 9:00 o'r gloch.

Mae tua 20 o blant yn cyrraedd yn hwyr yn ddyddiol rhwng 9:00 a 9:15yb ac mae hyn yn effeithio ar ein gallu i groesawu'r plant i'r dosbarth, eu cofrestru a chymryd y gofrestr cinio. Deallwn fod amgylchiadau gwahanol yn gallu codi ar brydiau i achosi teuluoedd i fod yn hwyr, ond dylai'r rheini fod yn achlysuol yn unig, nid dyddiol.

Yn yr un modd mi wnavn ni ein gorau i fod yn brydlon amser casglu ar ddiwedd y dydd hefyd. Deallwn nad profiad pleserus yw aros yn y gwynt a'r glaw yn aros i'r plant ddod o'r dosbarthiadau. Gwnawn ein gorau i fod ar amser.



### Gofalwr newydd

Braf yw croesawu Mr Iwan Edwards i'r ysgol. Bydd Iwan yn ymgymryd â'r rôl y Gofalwr yn dilyn ymddeoliad Mr Ifor Davies. Bydd rhai ohonoch eisoes yn gyfarwydd â gweld Iwan wrth giât yr ysgol gan ei fod yn rhiant yma hefyd. Dymunwn yn dda iddo yn y swydd.

## Yr Eisteddfod Ysgol

Byddwn yn cynnal yr Eisteddfod Ysgol ar ddydd Gwener y 9<sup>fed</sup> o Chwefror yn neuadd yr ysgol.



Mae'n eisteddfod gynhwysol – bydd cyfle i bawb gymryd rhan ym mhob cystadleuaeth sydd ar gael i'w hoedran nhw.

Bydd y rhagbrofion ar gyfer llefaru a chanu yn digwydd ar ddydd Llun y 5<sup>ed</sup>, a'r rhagbrawf offerynnol ar ddydd Mawrth y 6<sup>ed</sup>.

Bydd geiriau'r caneuon a'r darnau llefaru ac ati yn cael eu hanfon adref atoch gyda'r plant yn fuan.

Trefniadau Meithrin – bydd llythyr ar wahân yn eich cyrraedd gan staff y Meithrin. Gan fod y plant yn newydd i'r ysgol byddant yn cael eu gosod mewn tŷ, gyda phlant y prynhawn yn mynychu yn y bore ar ddiwrnod yr Eisteddfod er mwyn perfformio gyda'u cyfoedion. Bydd mwy o wybodaeth am yr Eisteddfod Ysgol yn eich cyrraedd yn nes at yr amser.

## Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfod yr Urdd yn eisteddfod ar wahân i'r Eisteddfod Ysgol. Dydyn nhw ddim yn gysylltiedig â'i gilydd.



Mae yna dair lefel o gystadlu gyda'r Urdd, gan gychwyn ar lefel Cylch Aberystwyth yn Chwefror, yna lefel Rhanbarthol

Ceredigion ym mis Mawrth, gyda'r uchafbwynt yn digwydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn 2024 ar ddiwedd mis Mai.

- Mae'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau torfol megis y Côr a Cherddorfa ac ati, a byddwch fel rhieni blynnyddoedd 5 a 6 wedi derbyn gwybodaeth am y rheiny mewn e-byst. Rydym ni fel ysgol yn cofrestru'r cystadlaethau hyn.
- **Os hoffech i'ch plentyn gystadlu'n unigol** (canu, llefaru, offerynnol, dawns) **mae angen i chi gofrestru arlein** gan ddilyn y ddolen isod. Dyddiadau cau: Ionawr 22<sup>ain</sup> ar gyfer offerynnol a dawns; Chwefror 5<sup>ed</sup> ar gyfer canu a llefaru)
- Mae'n rhaid i blant fod yn aelodau o'r Urdd cyn medru cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

[Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2024 | Urdd Gobaith Cymru](#)

Mae mwyafrif y cystadlaethau torfol wedi eu dewis erbyn hyn. Mae disgylion blynnyddoedd 5 a 6 wedi cael gwybod heddiw pa gystadlaethau maen nhw ynddynt. Er gwybodaeth bydd y cystadlaethau canlynol yn ymarfer fel a ganlyn:

- **Côr, Cerddorfa, Grŵp Llefaru, Ymgom, Dawnsio Aml gyfrwng, Dawnsio Creadigol** : Yn ystod oriau ysgol (naill ai cyn ysgol, amser chwarae neu amser cinio; gyda'r dawnsio yn digwydd ar fore dydd Gwener yn ystod y sesiynau Addysg Gorfforol)
- **Cân Actol** : Pob prynhawn dydd Mercher ar ôl ysgol rhwng 3:30 a 4:45yp yn neuadd yr ysgol, yn cychwyn wythnos nesaf.

### Rhiant Lywodraethwr/wraig

Ar hyn o bryd mae lle gwag ar gyfer Rhiant Lywodraethwr/wraig ar Gorff Llywodraethol yr ysgol. Anfonwyd e-bost atoch fel rhieni ar ddydd iau yr 11eg o Ionawr gyda'r wybodaeth berthnasol. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau yw'r 29ain o Ionawr.

### Bag2School

Mae'r Cyngor Ysgol yn awyddus i rannu'r cyfle i wneud Bag2School gyda chi, sef cyfle i lenwi bag gyda hen ddillad ac esgidiau ac ati er mwyn eu hail-gylchu. Mae'n siŵr fod pawb yn awyddus i glirio rhywfaint wrth baratoi at y gwanwyn(!) a bydd hyn yn ffordd wych o gael gwared ar hen bethau a chodi arian tuag at yr ysgol yr un pryd! Bydd pecyn Bag2School ym mag eich plentyn heddiw. Bydd angen dychwelyd y bag erbyn y dyddiad casglu sef dydd Mawrth y 30<sup>ain</sup> o Ionawr. Os hoffech fwy o fagiau cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda. Fel arall, os nad fedrwch lenwi bag, dychwelwch y pecyn i'r ysgol er mwyn ei roi i rywun arall. Diolch



### Y Gymraeg

Mae'n gyfnod eisteddfodau, sydd yn un o draddodiadau hynaf y Cymry a'r Gymraeg. Dysgwch fwy am hanes yr eisteddfod [yma](#)

### Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

### Dyddiadau pwysig yr hanner tymor nesaf

Sylwch fod dyddiadau pwysig Eisteddfodau'r Urdd wedi eu nodi ar waelod y Calendr Hanner Tymor.

Y dyddiadau ar gyfer y Nosweithiau Rhieni ar gyfer y tymor hwn yw dydd Llun y 18<sup>fed</sup> a dydd Mawrth y 19<sup>eg</sup> o fis Mawrth 2024.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**

**Gareth L James**

Pennaeth Dros Dro

**12/01/2024**

✉ [www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)

*Scroll down for English letter*

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

### **Punctuality in the mornings**

We kindly ask you to be punctual in the mornings please.



The Breakfast Club opens at 8:15am; then the rest of the school is open for everyone to arrive between 8:30 - 9:00 o'clock.

Around 20 children arrive late daily between 9:00 and 9:15am and this affects our ability to welcome the children to class, register them and take the lunch register. We understand that different circumstances can sometimes arise to cause families to be late, but those should only be occasional, not daily.

In the same way, we will do our best to be punctual at collection time at the end of the day as well. We understand that waiting in the wind and rain for the children to come from classes is not a pleasant experience. We'll do our best to be on time.



### **New Caretaker**

It is a pleasure to welcome Mr Iwan Edwards to the school. Iwan will take on the role of Caretaker following Mr Ifor Davies' retirement. Some of you will already be familiar with seeing Iwan at the school gate as he is a parent here too. We wish him well.

### **The School Eisteddfod**



The School Eisteddfod will be held on Friday the 9<sup>th</sup> of February in the school hall.

It is an inclusive eisteddfod - everyone will have the opportunity to participate in every competition available for their age.

The prelim for reciting and singing will take place on Monday the 5<sup>th</sup>, and the instrumental prelim on Tuesday the 6<sup>th</sup>.

The words to the songs and reciting pieces etc. will be sent home with the children soon.

Meithrin arrangements - a separate letter will be sent to you from the Nursery staff. As the children are new to the school, they will be placed in a house team, with the afternoon children attending in the morning on the day of the Eisteddfod in order to perform with their peers. More information about the School Eisteddfod will reach you nearer the time.

### **Eisteddfod yr Urdd**

The Urdd Eisteddfod is a separate eisteddfod from the School Eisteddfod. They are not connected to each other.

There are three levels of competition with the Urdd, starting at Aberystwyth Area level in February, then Ceredigion Regional level in March, with the highlight taking place at the Urdd National Eisteddfod Maldwyn 2024 at the end of May.



- The school competes in group competitions such as the Choir and Orchestra etc., and as parents of years 5 and 6 you will have received information about those in emails. We register these competitions as a school.
- If you would like your child to compete individually (singing, reciting, instrumental, dance) you need to register online by following the link below. Closing dates: January 22<sup>nd</sup> for instrumental and dance; February 5<sup>th</sup> for singing and reciting
- Children must be members of the Urdd to compete in the Urdd Eisteddfod.

Register to compete here:

[Competing Eisteddfod yr Urdd 2024 | Urdd Gobaith Cymru](#)

The majority of the group competitions have now been chosen. Pupils in years 5 and 6 have been told today which competitions they are in. For your information the following competitions will practice as follows:

- *Choir, Orchestra, Recitation group, Ymgom, Multi-media Dancing, Creative Dancing: During school hours (either before school, playtime or lunchtime; with the dancing taking place on Friday mornings during the Physical Education sessions)*
- *Cân Actol (Action Song) : Every Wednesday afternoon after school between 3:30 and 4:45pm in the school hall, starting next week.*

### **Parent Governor**

There is currently a vacancy for a Parent Governor on the school's Governing Body. An email was sent to you as parents on Thursday the 11<sup>th</sup> of January with the relevant information. The closing date for receiving nominations is the 29<sup>th</sup> of January.

### **Bag2School**

The School Council is keen to share the opportunity to do Bag2School with you, which is an opportunity to fill a bag with clothes and shoes etc. in order to reuse/recycle them. I'm sure everyone is keen to do a bit of Spring cleaning and this will be a great way to get rid of unwanted items and raise money for the school at the same time! A Bag2School pack will be in your child's bag today. The bag will need to be returned by the collection date which is Tuesday 30th January. If you would like more bags, please contact the school. Otherwise, if you cannot fill a bag, return the pack to the school and we'll give it to someone else. Thank you.



### **The Welsh language**

It is the term of eisteddfodau, which is one of the oldest Welsh language traditions. Learn more about the history of the eisteddfod [here](#)

### **Half Term Calendar**

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.

### **Important dates next half term**

Please note that the important dates of the Urdd's Eisteddfodau are indicated at the bottom of the Half Term Calendar. The dates for the Parents' Evenings this term are Monday 18<sup>th</sup> and Tuesday 19<sup>th</sup> of March 2024.

**If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.**

**Yours sincerely,**

**Gareth L James**

**Acting Headteacher**

**12/01/2024**

✉ [www.ysgolgymraeg.cymru](http://www.ysgolgymraeg.cymru)